**Cyngor Tref Amlwch Town Council**
Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, nos Fawrth Ebrill 28, 2026 am 7yh.
*Minutes of the Full Council meeting held at the Council Chamber, Tuesday April 28, 2026 at 7pm.*

**Presennol/Present:** Gareth Winston Roberts OBE, Gerry Belanger, Myrddin Owens, Meg Roberts, Julie Edwards, Gordon Warren, Noel Kerr

**Ymddiheuriadau/Apologies:** Gareth Thomas, Llinos Knowles Williams, Geraint Thomas, Derek Owen, Liz Wood, Alan Wood

**Yn bresennol/In attendance:** Carli Evans Thau (clerc/clerk), Aled Job (cyfieithu/translator), Sioned Edwards (Cadnant Planning) John Jones (Clwyd Alyn), Steve Walker (Williams Homes)

**1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies**
Bu Gareth Winston Roberts OBE gadeirio’r cyfarfod a chroesawy pawb yn bresennol.
*Gareth Winston Roberts OBE chaired the meeting and welcomed all present.*

**2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest**
Dim / *None*

**3 Cadnant Planning – Datblygiad Lon Tan y Bryn Road Development**
Bu cynrychiolwyr y datblygiad ddiolch am y gwahoddiad i gwrdd a’r Cyngor Tref. Pwysleiswyd bod cynlluniau yn parhau mewn ffurf drafft ar hyn o bryd ac nad oedd cais cynllunio wedi ei gyflwyno i CSYM. Cafwyd ddigwyddiad ymgynghori yng Nghlwb y Gorlan fel rhan o gyfnod ymgynghori cyn cyflwyno a bu peth adborth wedi hynnu.

Cadarnhawyd bod bwriad codi 52 o unedau preswyl ar y safle. Mae’r safle wedi ei rannu yn ddau er hwylusdod. Clwyd Alyn sydd berchen ar, ac yn gyfrifol am y datblygiad, gyda’g Williams Homes yn gyfrifol am y gwaith adeiladu. Bydd yr unedau yn parhau ym mherchnogaeth Clwyd Alyn onibai eu bod yn cael eu gwerthu i CSYM. Bydd yr unedau yn dai rhent gyda cymysgedd o rai un, dau, tri a pedair llofft ar rhent hyblyg canolraddol. Mae bwriad cynnwys rhai fflatiau un llofft, fydd o fewn unedau o bedwar wedi eu hadeiladu i edrych fel unedau tai semi.

Mae’r cymysgedd o dai mewn ymateb i’r gofyn a’r niferoedd ar gofrestr tai teg a chofrestr tai cymdeithasol. Cafwyd wybod bod 55 o geisiadau wedi rhestru Amlwch fel dewis cyntaf a 110 wedi rhestru Amlwch fel ail ddewis (rhestr tai cymdeithasol CSYM), mae 44 wedi enwi Amlwch ar y rhestr tai teg (rhent canolraddol). Cafwyd esboniad bod yr unedau canolraddol i’r rheini sydd yn gweithio ac yn enill gormod am dy cymdeithasol, ond bod ty rhent preifat allan o‘u cyrraedd. Grwp Cynefin sydd yn gyfrifol am gynnal y rhestr Tai Teg yng ngogledd Cymru.

Cafwyd wybodaeth pellach am sut mae gweithio lefelau rhent ar gyfer y tai canolraddol yn unol a model Joseph Rowntree. Mae’r rhent yn ddibynnol ar y nifer o bobl a’u horiau gwaith yn ogystal a maint y ty. Bydd gwybodaeth pellach yn cael ei anfon at y clerc i’w gylchredeg gyda’r aelodau wedi’r cyfarfod.

Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi trafod y datblygiad wedi’r sesiwn ymgynghori cyn cyflwyno cais a bu trafod pob pryder/ sylw yn ei dro:

- Anghenion tai yn yr ardal – nodwyd bod yr angen am dai rhent wedi ei adnabod a bod tystiolaeth yn y niferoedd sydd ar y rhestrau aros (gweler uchod). Trafodwyd gor-ddatblygiad yn yr ardal gan nodi bod datblygiad sylweddol ar safle Madyn, a chynlluniau gan CSYM i adeiladu nifer o unedau ar Ffordd Porth Llechog (gefn wrth gefn a Maes Mona). Nodwyd nad oedd CSYM wedi cyflwyno cais cynllunio ar gyfer y datblygiad arfaethiedig yma eto.

- Carffosiaeth a dwr gwyneb – cafwyd wybodaeth cynhwysfawr am y cynlluniau arfaethiedig ar gyfer y ddau ran o’r datblygiad yn dilyn ymgynghoriad gyda CSYM a Dwr Cymru.

- Effaith amgylcheddol – cafwyd gadarnhad gan Cadnant Planning mai dim ond chwe coeden ar y safle fydd angen cael eu torri, ac y byddai nifer fawr o goed a phlanhygion eraill yn cael eu plannu ar hyd ymylon y datblygiad er mwyn cryfhau corridor bywyd gwyllt o un pen y safle a’r llall. Cadarnhawyd byddai’r coed newydd o maint sylweddol.

- Diogelwch cymdogion cyfagos – bydd yr unedau newydd yn gymysg drwy’r safle gyfan, ni rhagwelir byddai unrhyw effaith negyddol ar drigolion cyfagos nac o fewn y datblygiad.

- Effaith drilio ar eiddo cyfagos – bu Williams Housing gadarnhau eu bod yn ymgynghori ac yn gynnal archwiliadau cyn cychwyn ar unrhyw waith i sicrhau na fyddai un rhyw ddifrod i eiddo cyfagos o ganlyiad i'r datblygiad. Nid yw'n statudol ofynnol ymgynghori a gwasanaeth diogelu'r cyhoedd yn ystod y rhan yma o'r broses gynllunio.

- Cynydd yn y nifer o gerbydau ar y ffordd – bu cydnabod byddai nifer o gerbydau ychwanegol yn ystod y cyfnod adeiladu. Nodwyd bod nifer o'r contractwyr yn bobl lleol.

- Effaith ar yr iaith – cadarnhawyd bydd y rhent o fewn cyrraedd teuluoedd lleol ac y byddai eu gosod i bobl o'r ardal. Cadarnhawyd byddai enw Cymraeg ar y datblygiad, gyda chyswllt a hanes yr ardal gyfagos. Dim ond rhifau fydd ar pob uned unigol. Trafodwyd beth oedd yn dynodi 'person lleol', bydda posib i'r Cyngor Tref wneud cais a chynnig argymhellion i newid polisi gosod ar gyfer y safle penodol yma ond byddai angen i Clwyd Alyn a CSYM dderbyn a chytuno. Byddai angen trafodaethau pellach gyda'r cynghorwyr sirol.

- Pryder am berchnogaeth a rheolaeth gosod y tai – bydd yr unedau yn parhau ym mherchnogaeth Clwyd Alyn ac yn cael eu gosod fel nodwyd uchod.

- Pwysau ar wasanaethau lleol – nodwyd pryderon am effaith ar wasanaethau lleol sydd eisioes dan bwysau mawr.

- Contractwyr a cyflenwyr lleol yn cael cyfleon – cadarnhawyd bod nifer o gyflenwyr a chontractwyr Williams Housing yn bobl a chwmniau lleol ac y byddai hyn yn parhau.

Mae gobaith cyflwyno cais cynllunio llawn i CSYM erbyn diwedd mis nesaf. Bu diolch i'r cynrychiolwyr am eu hamser ac am rannu gwybodaeth gyda'r Cyngor.

*The representatives of the development thanked the Council for the invitation to meet with members. It was emphasised that plans remain at present in draft form and that a planning application had not yet been submitted to IACC. A consultation event has been held at Clwb y Corlan as part of the pre-application consultation period prior to submission.*

*The intention to build 52 residential units on the site in question was confirmed. The site has been divided into two for ease of development. Clwyd Alyn owns, and is responsible for the development, with Williams Homes responsible for the construction work. The units will remain in the ownership of Clwyd Alyn unless they are sold to IACC. The units will be rental properties with a mix of one, two, three and four-bedroom units at an intermediate, flexible rent. It is intended to include some one-bedroom flats, which will be presented as units of four built to look like semi-detached houses.*

*The mix of houses is in response to the demand, the numbers on the Tai Teg register and the social housing register. It was found that 55 applications have listed Amlwch as first choice and a further 110 have listed Amlwch as second choice (IACC social housing list), 44 have named Amlwch on the Tai Teg register (intermediate rent). It was explained that the intermediate units are for those who work and earn too much to be eligible for social housing, but that a private rental house is out of their reach. Grwp Cynefin is responsible for maintaining the Tai Teg register throughout North Wales.*

*Further information was obtained on how rent levels were set for the intermediate rental houses in accordance with the Joseph Rowntree model. The rent is dependent on the number of people and their working hours as well as the size of the house. Further information will be sent to the clerk to be circulated with the members after the meeting.*

*It was confirmed that the Council had discussed the development following the consultation event held at Clwb y Gorlan. Each item of concern was discussed in turn:*

- *Housing needs in the area - it was noted that the need for rental housing has been identified and there is evidence in the numbers on the waiting lists (see above). Overdevelopment in the area was discussed noting that there is significant development on the Madyn site, and plans by IACC to build a number of units on Bull Bay Road (back to back and Maes Mona). It was noted that IACC had not yet submitted a planning application for this proposed development.*

- *Sewerage and surface water - comprehensive information was shared about the proposed plans for both parts of the development following consultation with IACC and Dwr Cymru.*

- *Environmental impact - Cadnant Planning confirmed that only six trees on the site would be felled, and that a large number of trees and other plants would be planted along the edges of the development in order to strengthen the wildlife corridor from one end of the site to the other. It was confirmed that the new trees would be substantial rather than small saplings.*

- *Safety of nearby neighbours - the new units will be mixed throughout the site; it is not anticipated that there would be any negative impact on nearby residents or within the development.*

- *Impact of drilling on neighbouring properties - Williams Housing confirmed that they would consult with, and carry out inspections before starting any work to ensure that there would not be any damage to neighbouring properties as a result of the development. It is not a statutory requirement to consult with the public protection service at this stage of the planning process.*

- *An increase in the number of vehicles on the road - it was recognised that there would be a number of additional vehicles during the construction period. It was noted that many of the contractors were local people.*

- *Impact on the language - it was confirmed that the rent will be within the reach of local families and that the units would be let to people from the area. It was confirmed that the development would have a Welsh name, with a link to the history of the surrounding area. There will only be numbers on each individual unit. It was discussed what designated a 'local person', it will be possible for the Town Council to make an application and offer recommendations to change the letting policy for this particular site but Clwyd Alyn and IACC would need to accept and agree. Further discussions with the county councillors would be needed.*

- *Concern about the ownership and control of letting the houses - the units will remain in the ownership of Clwyd Alyn and will be let as stated above.*

- *Pressure on local services - concerns were noted about the impact on local services which are already under great pressure.*

- *Local contractors and suppliers' opportunities - it was confirmed that a number of Williams Housing's suppliers and contractors are local people and companies and that this would continue.*

*It is hoped to submit a full planning application to IACC by the end of next month. The representatives were thanked for their time and for sharing information with the Council.*

**4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting**

Bu Myrddin Owens gynnig cymeradwyo'r cofnodion gydag un gwelliant - eitem 5.2, mai dim ond un cyfarfod llywodraethwyr oedd Liz Wood wedi ei fynychu ers Mai 2022. Derbyniwyd y cynnig a bu'r aelodau'n unfrydol yn cymeradwyo'r cofnodion.

*Myrddin Owens proposed to approve the minutes with one amendment - item 5.2, that Liz Wood had only attended one meeting of the school governors since May 2022. The motion was accepted and the members unanimously approved the minutes.*

**5 Materion yn Codi / Matters Arising**

5.1 Bu Myrddin Owens nodi bod Emyr Williams wedi ei benodi yn bennaeth newydd ar yr Ysgol Gynradd. Bu cynnig estyn gwahoddiad iddo i gwrdd a'r Cyngor Tref yn nhymor yr Hydref.

*Myrddin Owens noted that Emyr Williams had been appointed the new headteacher of the Primary School. It was proposed to extend an invitation for him to meet the Town Council in the Autumn term.*

5.2 Ni fu gwybodaeth pellach am y gwaith i drin ac uwchraddio'r trac beicio yng Nghraig y Don.
*There was no further information about the work to repair and upgrade the cycle track in Craig y Don.*

5.3 Mae cyfarfod wedi ei drefnu gyda Prif Weithredwr Era 4 (Perchnogion Safle Octel) pnawn Mawrth Mai 19 am 2 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.

*A meeting has been arranged with the Chief Executive of Era 4 (Octel Site Owners) on the afternoon of Tuesday May 19 at 2 o'clock in the Council Chamber.*

5.4 Nid oes gwybodaeth pellach am geisiadau cynllunio'r sefydliadau bwyd yng nghanol y dref. Nodwyd eu bod eisioes yn weithredol er heb ganiatad cynllunio.

*There is no further information on the planning applications of the food establishments in the town centre. It was noted that they were already operational albeit without planning permission.*

**6 Cyfarfodydd Allanol / External Meetings**

6.1 Bu Gordon Warren ymddiheuro nad oedd wedi gallu mynychu cyfarfod Un Llais Cymru, ond bu cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod wedi eu rhannu a'r aelodau er gwybodaeth.

*Gordon Warren apologized for not being able to attend the One Voice Wales meeting, but it was confirmed that the minutes of the meeting had been shared with members for information.*

6.2 Cafwyd adroddiad gan Meg Roberts wedi iddi fynychu gwrandwiad gyda'r arolygwr gynllunio yn ymwneud a llwybr cyhoeddus Parys Farm.

*A report was given by Meg Roberts having attended a hearing with the planning inspector regarding the Parys Farm public footpath.*

**7 Pwyllgor Cyllid / Finance Committee**

Cafwyd adroddiad gan Myrddin Owens yn dilyn cyfarfod y pwyllgor. Bu cymeradwyo nifer o daliadau fel yr arfer, mae manylion pellach ar gael gan y clerc. Bu cadarnhau balans pob cyfrif banc. Bu hefyd gyflwyno rhestr o dailadau rheolaidd a bu'r pwyllgor a'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r hawl i'r clerc eu talu heb adrodd pob taliad unigol i'r pwyllgor.

Bu ystyried tri cais am gefnogaeth ariannol sef Pwyllgor Gwlad y Medra (Sioe Frenhinol Cymru), Mencap Mon ac Eisteddfod yr Urdd Ynys Mon. Bu'r pwyllgor armgymell nad oedd y Cyngor yn cyfrannu tuag at Bwyllgor Gwlad y Medra na Mencap gan nad oeddent yn bwrpasol weithredol yn Amlwch. Bu argymell cyfrannu £200 tuag at yr Eisteddfod gan nodi bod nifer o blant a phobl ifanc Amlwch yn cystadlu a chymryd rhan. Cefnogwyd y cynnig, ni fu i Myrddin Owens gymryd rhan yn y drafodaeth.

Derbyniwyd adroddiad chwarterol (diwedd blwyddyn) gan y clerc yn dangos holl wariant ac incwm y Cyngor dros y flwyddyn diwethaf. Mae'r ddogfen ar gael i'r holl aelodau.

Mae paratoadau ar gyfer yr archwiliad mewnol ar y gweill a bu cadarnhau'r themau ar gyfer yr archwiliad allannol 2025-26. Bydd cyflwyno'r dogfennau i Alun Foulkes yr archwiliwr mewnol cyn gynted a phosib.

Nid oes diweddariadau pellach am y Llofft Hwyliau, Gareth Winston Roberts i wneud ymholiadau pellach.

Bu'r pwyllgor adolygu cyflogau staff yn unol a newidiadau cenedlaethol. Bu cytuno ar gynydd o 5% i staff ategol, nodwyd bod cyflog y clerc yn unol a chyfradd cenedlaethol i glercod.

Cafwyd wybod bod yr asesiad risg diogelwch tan wedi ei gwblhau a bod y clerc yn disgwyl trefnu cyfarfod gyda'r cwmni i gadarnhau pa waith oedd angen ei gwblhau. Bu tynnu sylw hefyd at ddifrod ym Mharc Natur Bro Trehinion, mae gwaith eisioes ar y gweill i ddiogelu'r ardal.

*A report was given by Myrddin Owens following the committee meeting. A number of payments were approved, as usual further details are available from the clerk. The balance of each bank account was confirmed. An updated list of regular payments was presented, with the committee and the Full Council granting the permission for the clerk to pay them without reporting each individual payment to the committee.*

*Three requests for financial support were considered, namely the Gwlad y Medra Committee (Royal Welsh Show), Mencap Mon and the Urdd Eisteddfod Ynys Mon. The committee recommended that the Council did not contribute towards Gwlad y Medra Committee or Mencap as they were not specifically active in Amlwch. The committee suggested that the Council contribute £200 towards the Eisteddfod noting that a number of children and young people from Amlwch compete and take part. The motion was supported, Myrddin Owens did not take part in the discussion.*

*A quarterly (end of year) report was received from the clerk showing all of the Council's expenditure and income over the past year. The document is available to all members.*

*Preparations for the internal audit were underway and the themes for the 2025-26 external audit were confirmed. The documents will be submitted to Alun Foulkes the internal auditor as soon as possible.*

*There are no further updates about the Sail Loft, Gareth Winston Roberts to make further enquiries.*

*The finance committee reviewed staff salaries in line with national changes. An increase of 5% for support staff was agreed, it was noted that the clerk's salary was in line with the national rate for clerks.*

*It was reported that the fire risk assessment had been completed and that the clerk was arranging a meeting with the company to confirm what work needed to be completed. Attention was also drawn to damage in Bro Trehinion Nature Park, work is already underway to make safe the area.*

**8 Prosiectau Cyfalaf / Capital Projects**

Bu tynnu sylw at arian grant sydd wedi ei glustnodi gan CSYM tuag at brosiectau cyfalaf yn Amlwch. Mae'r clerc eisioes wedi cadarnhau bod y Cyngor Tref am dderbyn yr arian. Mae angen cyflwyno gwybodaeth pellach i CSYM sut mae bwriadu ei wario, a chwblhau'r prosiect(au) erbyn diwedd mis Hydref. Trafodwyd prosiectau posib gan bwysleisio yr angen y rannu'r arian yn deg drwy'r ardal. Aelodau i feddwl am gynlluniau posib ac adrodd yn ol i'r clerc cyn gynted a phosib. Rhaid cofio byddai unrhyw gostau cynnal a chadw yn y dyfodol yn disgyn ar y Cyngor Tref.

*Attention was drawn to grant money that has been earmarked by IACC towards capital projects in Amlwch. The clerk has already confirmed that the Town Council wants to receive the money. It is necessary to submit further information to IACC how it is intended to be spent, and to complete the project(s) by the end of October. Possible projects were discussed emphasising the need to share the money fairly throughout the area. Members to think about possible projects and report back to the clerk as soon as possible. It must be remembered that any future maintenance costs would fall on the Town Council.*

**9 Diweddariad Adeiladau Porth Amlwch Port Buildings Update**

Gweler adroddiad y pwyllgor cyllid uchod / *See finance report above.*

**10 Banc Bwyd Amlwch Foodbank (Ewyllys Da Amlwch)**

Cafwyd adroddiad gan Gordon Warren am weithgareddau'r banc bwyd. Mae tim bychain o wirfoddolwyr cyson wedi sicrhau bod 56 o geisiadau wedi eu gwireddu hyd yn hyn y flwyddyn yma. Mae rhoddion bwyd yn gyson diolch i'r gymuned a busnesau lleol ac mae llif arian yn galluogi'r gwirfoddolwyr i brynnu unrhyw eitemau eraill sydd yn brin. Bu diolch i'r Cyngor Tref am ddefnydd yr ystafelloedd am gost rhesymol, a bu'r Cyngor yn ei dro ddiolch am y gwasanaeth a ddarparwyd.

*A report was given by Gordon Warren about the activities at the food bank. A small team of regular volunteers has ensured that 56 referrals have been realised this year to date. Food donations are constant thanks to the community and local businesses and cash donations enable the volunteers to buy any other items that are in short supply. The Town Council was thanked for the use of the rooms at a reasonable cost, and the Council in turn gave thanks for the service provided.*

**11 Cynllunio / Planning**

11.1 Safle Octel – nodwyd bod y cais ar gyfer Canolfan AI wedi ei wrthod ar sail diffyg gwybodaeth (FPL/2025/305) ond bod cais am ddatblygiadau ategol yn parhau gyda'r awdurdod gynllunio ar hyn o bryd (FPL/2026/44). Mae cyfarfod wedi ei drefnu gyda perchnogion y safle 19/5/26.

*Octel site - it was noted that the application for an AI Centre had been refused due to lack of information (FPL/2025/305) but that an application for ancillary developments is currently ongoing with the planning authority (FPL/2026/44). A meeting has been arranged with the owners of the site 19/5/26.*

11.2 Nodwyd siom bod CSYM yn bwriadu symud ymlaen a'r gwaith ar dafarn y Queens Head. Bydd Lon Goch wedi ei gau i gerbydau am hyd at wyth wythnos o 11/5/2026. Mae'r Cyngor Tref wedi gwrthwynebu'r cynllun ers y dechrau oherwydd cyflwr yr adeilad ac yn parhau yn bryderus am yr effaith ar fusnesau eraill a thrafnidiaeth cyhoeddus.

*Disappointment was noted that IACC intends to proceed with the work on the Queens Head. Lon Goch will be closed to vehicles for up to eight weeks from 11/5/2026. The Town Council has opposed*

*the plans from the start due to the condition of the building, with continued concern regarding the impact on other businesses and public transport.*

.

11.3 Bu ystyried un cais, cadarnhawyd bod y wybodaeth wedi ei ebostio at yr aelodau cyn y cyfarfod – FPL/2026/60 5 Ger yr Eglwys – gwrthwynebiad cryf ar sail pryderon parcio a diogelwch plant yn chwarae, effaith ar gymdogion (datblygiad tai fforddiadwy) a bod nifer o eiddo busnes gwag yn y dref. Cefnogi'r fenter a'r busnes ond y cais yn y lleoliad anghywir.

*One application was considered, it was confirmed that the information had been emailed to the members before the meeting - FPL/2026/60 5 Ger yr Eglwys - strong opposition based on parking concerns and the safety of children playing, impact on neighbours (affordable housing development) and that there are a number of empty business properties in the town. Members were supportive of the business but not at this location.*

11.4 Cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn: / *IACC decisions were noted as follows:*

- FPL/2025/246 Basn dwr Stad Diwydiannol Amlwch water retention basin – caniatad/granted
- FPL/2026/15 Ffens Stad Diwydiannol Amlwch Fence – caniatad/granted
- LUE/2025/15 Mount View, Llaneilian Rd – cyfreithlon/lawful

**12 Toiledau Porth Amlwch Toilets**

Mae'r toiledau ar agor ac mae problemau yn barod. Ni fu John Gill yn bresennol i drafod ei gynnigion. Cytuno peidio cynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf nes bydd trafodaethau pellach wedi cymryd lle.

*The toilets are open and there are already problems. John Gill was not present to discuss his proposals. Agree not to include it on the next meeting's agenda until further discussions have taken place.*

**13 Adduned Parch Un Llais Cymru / One Voice Wales Civility Pledge**

Cadarnhawyd bod y wybodaeth wedi ei anfon at yr aelodau drwy ebost. Cytuno yn unfrydol bod y Cyngor yn mabwysiadu'r adduned.

*It was confirmed that the information had been sent to the members by email. Unanimously agree that the Council adopts the resolution.*

**14 Cwestiynau i'r Cynghorwyr Sirol / Questions to the County Councillors**

Ni fu aelod sirol yn bresennol / T*here were no county councillors present.*

**15 Gohebiaeth / Correspondence**

15.1 Bu tynnu sylw at orymdaith a chyngerdd i groesawy Eisteddfod Mon i Fro Parys yn 2027.
*Attention was drawn to a parade and concert to welcome Eisteddfod Mon Bro Parys 2027.*

15.2 Daw cais i ddefnyddio'r Siambr am gyfarfod gydag ymgeisydd Reform – cytuno nad oedd hyn yn addas yn ystod cyfnod cyn etholiad.

*There was a request to use the Chamber for a meeting with a Reform candidate - agreed this was not suitable during the period leading up to an election.*

15.3 Cafwyd cais i osod baner Gambia tu allan i'r swyddfa i ddathlu ugain mlynedd ers gefeillio Amlwch a Sankwia. Cytuno bod hefyd angen gosod y tystysgrifau ar y wal yn Siambr.

*There was a request to place the Gambia flag outside the office to celebrate twenty years since the twinning of Amlwch and Sankwia. Agreed that the certificate should be reinstated on the in the Chamber.*

**16 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn i'w gynnal nos Fawrth, Mai 26 2026 am 7yh.
*The next Full Council meeting will be held Tuesday, May 26 2026 at 7pm.*

Bu'r cyfarfod orffen am 8.50yh / *The meeting closed at 8.50pm*

**Gareth Winston Roberts OBE**
**Cadeirydd/Chair**
**Cyngor Tref Amlwch Town Council**
CET04-26